Cwlwm Cythraul

Casineb / Maddeuant

Blodyn prydferth ydi blodyn y planhigyn hwn. Blodyn gwyn ar siâp trwmped. Yn yr haf bydd y blodau gwynion, mawr i'w gweld yn y cloddiau. Pan welwch chi'r blodau ewch atyn nhw. Does ganddyn nhw ddim persawr fel y rhosyn neu'r gwyddfid. Ond mae nhw'n flodau urddasol. Mae'r planhigyn hwn yn tyfu'n sydyn trwy glymu ei hun ar blanhigion eraill. Ond does dim rhaid cael planhigyn arall, mi wnaiff ffens, wal neu giât y tro'n iawn. Tyfu i fyny tua'r goleuni mae'r planhigyn.

Os daw hwn i'r ardd, rhad arnoch! Bydd wedi nadreddu ei hun o gwmpas y planhigion eraill. Yn y man bydd wedi cuddio a thagu sawl planhigyn er mwyn cyrraedd y goleuni. Planhigyn yw hwn sydd yn mynnu aros efo chi. Mae'n gwreiddio'n ddwfn iawn. Os byddwch yn credu eich bod wedi cael gwared â Chwlwm Cythraul bydd yn siŵr o ymddangos y flwyddyn ddilynol a'r flwyddyn ddilynol. Fe gymer flynyddoedd maith i waredu hwn. A beth am yr hadau? Gall rhain aros yn y pridd am ugain mlynedd cyn egino.

Dweud mae'r planhigyn hwn- 'mi ydw i am aros efo chi. Mi gewch chi gryn anhawster i gael gwared â fi'

Ydych chi wedi teimlo'n gas tuag at rywun? Eich rhieni, plant sy'n byw ar y stryd, neu blant sydd efo chi yn yr ysgol. Efallai bod eich mam yn mynnu eich bod yn glanhau eich ystafell wely, neu helpu'n yr ardd, a chwithau ddim awydd gwneud hynny. Mae'r plant sy'n byw ar y stryd yn galw enwau arnoch. Mae plant yn y dosbarth yn gwneud sbort am eich pen. Mae'r rhain i gyd yn eich gwneud i deimlo'n gas a milain. Gall y casineb hwn wreiddio'n ddwfn fel gwreiddiau Cwlwm Cythraul. Gall y casineb aros efo ni am flynyddoedd maith. Mae hynny yn ei dro'n ein gwneud yn bobl annymunol.

O Dduw,
weithiau, rwy'n teimlo'n gas
yn ffraeo efo pawb,
efo'm rhieni,
efo'm brodyr a'm chwiorydd
nain a taid
ffrindiau ar y stryd,
ffrindiau yn yr ysgol.
Ar ôl i mi fod yn gas
wedyn, rydw i'n teimlo'n gas efo mi fy hun.
Rydw i ofn tyfu i fyny'n berson cas.
Fydd neb byth yn hoff ohonof wedyn.
Wnei di fy helpu?
Pan fyddai'n dechrau troi'n gas
wnei di ddangos ffordd well i mi.
Gwna fi yn berson annwyl ac addfwyn.
Ond weithiau
mae yna le i mi fod yn gas
pan fydd pobl yn cael eu cam-drin a
phan fydd pobl yn cael cam.
O Dduw, helpa fi
i ddysgu bod yn gas ar yr amser cywir,
ac yn addfwyn bob tro arall. Amen

✦ Oes ganddon ni hawl i fod yn gas efo'n rhieni ac athrawon pan mae'n nhw gwybod beth yw'r gorau i ni?
✦ Beth sy'n eich gwneud chi'n gas ac annymunol?